Cylchlythyr Ysgol Bro Idris: Nadolig 2021

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Newyddion Da!

Braf yw cael cyhoeddi fod Ysgol Bro Idris wedi eu tynnu o fesurau monitro gan Estyn. Dyma ddyfyniad o lythyr derbyniwyd yr wythnos hon gan Estyn:
"Dyma grynodeb o'r prif bwyntiau trafod:

- Mae'r ysgol wedi sicrhau parhad o addysg trwy gyfnod y pandemig sydd wedi galluogi i ddisgyblion oedran uwchradd ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.
- Mae cynllunio darpariaeth y medrau yn fwy cydlynol nag ar amser yr arolygiad.
- Ceir gwell dilyniant yn y ddarpariaeth o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.
- Mae prosesau monitro'r ysgol a'r awdurdod wedi darganfod bod athrawon, yn gyffredinol, yn defnyddio strategaethau gwahanol ac yn cynnig her fwy addas i ddisgyblion.
- Er gwaethaf y cyfnodau clo, mae arweinwyr wedi parhau gyda phrosesau hunanwerthuso ac yn defnyddio'r canfyddiadau yn briodol i gynllunio gwelliant. Mae sefydlogrwydd ymysg arweinyddiaeth yr ysgol wedi sicrhau eu bod yn datblygu i arwain eu meysydd yn hyderus.

Canlyniad yr adolygiad
Bernir bod Ysgol Bro Idris wedi gwneud cynnydd priodol o ran y materion allweddol yr oedd angen gweithredu arnynt ac wrth ddatblygu'r gallu i barhau i ysgogi gwelliannau.
Byddwn nawr yn tynnu enw'r ysgol o restr yr ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn.
Ni fydd unrhyw weithgarwch monitro pellach yn gysylltiedig â'r arolygiad hwn."

Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr
Braf iawn oedd derbyn cadarnhad Estyn wythnos yma fod Ysgol Bro Idris wedi gweithredu'r argymhellion gwella'n llwyddiannus, ac ein bod bellach wedi ein rhyddhau o'r mesuriadau perfformiad y gosodwyd arnom yn Rhagfyr 2019 yn dilyn eu harolwg.
Mae hyn yn newyddion gwych, ac yn adlewyrchiad o'r gwaith caled ac ymroddiad yr holl staff, a hoffwn ddiolch yn arbennig i bawb am hyn. Rhaid cofio bod y cynnydd wedi ei gyflawni yn ystod cyfnod heriol yn ei hun oherwydd Covid, lle bu rhaid addasu darpariaeth addysgu, a hynny dros nos ar adegau!
Felly, llongyfarchiadau mawr i holl staff a disgyblion yr ysgol.
Helen Jones
Cadeirydd Llywodraethwyr

<u>Gwasanaeth Nadolig</u>
Rydym fel ysgol wedi paratoi cyngerdd Nadolig gan gynnwys pob safle – 'Y Stori Fawr'. Fe fydd y dangosiad cyntaf yn cael ei ddarlledu dros Youtube ar Ddydd Mercher yr 22/12/21 am 18:00 ac yna ar gael i'w wylio unrhywbryd yr hoffech. Sganiwch neu cliciwch ar y QR code er mwyn ei wylio.

Casgliad Banc Bwyd

Lawnsiwyd cystadleuaeth gan Gyngor Ysgol Ffes 3 ym mis Tachewdd i holl ddosbarthiadau'r ysgol i gasglu cymaint o eitemau a phosib ar gyfer Banc Bwyd Bermo. Mae'n amlwg o'r holl eitemau sydd wedi cyrraedd yr ysgol fod gennym ddisgyblion (ac athrawon) cystadleuol iawn! Y dosbarth buddugol oedd 8A a'u tiwtor Mr Meilir Williams a lwyddodd i gasglu 197 o eitemau! Cafodd y dosbarth a Mr Williams fynd i'r banc bwyd gyda'r holl eitemau a gasglwyd. Diolch i bawb a gyfranodd mor hael.

Beca Hughes

Blwyddyn 6 wedi cael trydydd trwy Feirionnydd yn y cwis Dim Clem wythnos diwethaf. Llongyfarchiadau!

Ffion Mair

Enillodd Ffion le mewn 7 ras nofio eleni, a hynny heb gystadlu ers mis Awst. Llwyddodd i gyrraedd y ffeinal mewn 3 ras, a gorffennodd y pencampwriaeth gyda 1af, 3ydd a 4ydd. Mae hi erbyn hyn yn 3ydd ym Mhrydain ac wedi llwyddo i ennill lle yn nhîm Cymru mis Ionawr unwaith eto. Llongyfarchiadau mawr Ffion!

Diwrnod Siwmperi Nadolig

Ar Ddydd Gwener, Rhagfyr 10fed cafodd disgyblion Ysgol Bro Idris gyfle i wisgo siwmperi Nadolig a chyfrannu £1 tuag at Save the Children. Roedd ystod eang a diddorol iawn o siwmperi gyda disgyblion a staff wedi gwneud ymdrech arbennig i greu naws Nadoligaidd. Casglwyd £352.16 tuag at yr elusen. Diolch i bawb am gyfrannu.

Raffl Nadolig

Llongyfarchiadau mawr i Stella Meredith ar ennill y Llyfr Chrome yn ein raffl fawr Nadolig

Cinio a Parti Nadolig

Diolch i'r cogyddion ar bob safle am baratoi cinio nadolig blasus iawn i ni unwaith eto. Yn ogystal, Cynhaliwyd parti Nadolig ym mhob safle diwedd tymor.

Ymddeoliad Olga Malone

Rydym yn dymuno ymddeoliad hapus iawn i Mrs Olga Malone. Mae hi wedi bod yn gymhorthydd arbennig ers cychwyn Ysgol Bro Idris a rydym yn hynod o ddiolchgar iddi am ei chyfraniad i fywyd ysgol. Pob dymuniad da i chi Mrs Malone!

Dyddiadau Pwysig:	
23/12/21	Gwyliau'r Nadolig
6/1/22 + 7/1/22	Hyfforddiant i athrawon (dim ysgol i ddisgyblion)
10/1/22	Disgyblion i gyd yn dychwelyd i'r ysgol
11/1/22	**Arholiad TGAU Saesneg Llenyddiaeth (Blwyddyn 10 + 11)**

Ymweliad Siôn Corn i bob safle

Yn ystod yr wythnos olaf, aeth Siôn Corn a'r corach bach o amgylch pob dosbarth Ysgol Bro Idris. Bu'n rhannu siocled gyda'r holl blant yn ogystal a sgwrsio am y Nadolig. Diolch yn fawr i Co-op am gyfrannu.

Ysgol Bro Idris Newsletter: Christmas 2021

Merry Christmas and a Happy New Year

Good news!

It's great to announce that Ysgol Bro Idris has now been removed from Estyn's special measures. Here is an extract of a letter received from Estyn last week: Here is a summary of the main discussion points:

- The school has ensured that education has continued throughout the pandemic, which has enabled secondary age pupils to practise their literacy and numeracy skills across the curriculum.
- Planning for skills provision is more co-ordinated than at the time of the inspection. There is better progression in provision from key stage 2 to key stage 3.
- The school and the authority's monitoring processes have found that teachers, in general, use different strategies and provide a more suitable challenge for pupils.
- Despite the lockdown periods, leaders have continued with self-evaluation processes and use the findings appropriately to plan improvement. Stability in the school's leadership has ensured that they are developing to lead their areas confidently.

Outcome of the review
Ysgol Bro Idris School is judged to have made appropriate progress in respect of the key issues for action, and in developing the capacity to continue to bring about improvements. We will now remove the school from the list of schools requiring Estyn review. There will be no further monitoring activity in relation to this inspection.

Message from the Chair of Governors
It was good to receive confirmation from Estyn this week that Ysgol Bro Idris has implemented improvement recommendations successfully, and we have now been released from performance measurements put in place in December 2019 following their inspection. This is excellent news and a reflection of the hard work and the devotion of all staff, I wish to give everybody a special thanks for this. We should remember that the progress has been accomplished during a very challenging period as a result of Covid, where the provision of learning had to be adjusted, overnight at times! So, congratulations to all staff and pupils at the school.
Helen Jones
Chair of Governors

Christmas Concert
We have been busy preparing a Christmas concert including every site – 'The Big Story'. The premier will be shown on Youtube on Wednesday 22/12/21 at 18:00 and will be available to view any time you wish. Scan or click on the QR code to watch.

Food Bank Collection

A competition was launched by Phase 3 School Council in November for all classrooms in Ysgol Bro Idris to collect as many items as possible for the Food Bank in Barmouth. After seeing so many items arriving the the school we have very competitive pupils (and staff). 8A classroom and their tutor, Mr Meilir Williams won the competition and collected 197 items.

Beca Hughes

Year 6 came third through Meirionnydd in the 'Dim Clem' quiz last week. Congratulations!

Ffion Mair

won 7 swimming races this year, and that was without competing since August. She succeeded to reach the final in 3 races and finished the championship with 1st, 3rd and 4th. By now she is in the 3rd place over Britain and has succeeded for a placement in the Welsh team again in January. Congratulations Ffion.

Christmas jumper day

On Friday, December 10th Ysgol Bro Idris pupils were wearing their Christmas jumper and contributing £1 to Save the Children. There was a variety of interesting jumpers with pupils and staff made a great effort to create a Christmas atmosphere. The school raised £352.15 towards the charity. Thank you very much to everyone for contributing.

Christmas Raffle

Congratulations to Stella Meredith on winning the Chromebook in our Christmas Raffle.

Christmas party and dinner

Thanks to all cooks on every site for preparing a lovely Christmas dinner for us again this year. A Christmas party was held on every site end of term.

Olga Malone Retirement

We wish a happy retirement to Mrs Olga Malone. She has been a great teaching assistant since the opening of Ysgol Bro Idris and we are very grateful to her for her contribution to school life. Best wishes to Mrs Malone!

Key dates:	
23/12/21	Christmas holidays
6/1/22 + 7/1/22	Staff training (no school for pupils)
10/1/22	All pupils return to school
11/1/22	**GCSE Engish Literature Exam (Year 10 + 11)**

Santa visiting all sites

During the last week, Santa and his elf went around all classrooms in Ysgol Bro Idris. He shared chocolates with all pupils and discussed Christmas with the children.